Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

# TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 22 Medi, 2023 |

**PWNC**

Eitem 5: CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2023-24 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2023

**PENDERFYNIAD**

**(1) Nodi a derbyn adolygiad refeniw diwedd Awst 2023 y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 1 i'r adroddiad).**
**(2) Nodi a derbyn diweddariad cronfeydd wrth gefn y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 2).**
**(3) Cytuno ar broffil gwariant cyfalaf diwygiedig y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 3).**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

(1) Nodi tanwariant a ragwelir o £266,683 yn erbyn y gyllideb refeniw yn 2023/24 sydd yn bennaf oherwydd llwyddiant y Swyddfa Rheoli Portffolio gyda'u cais Cronfa Ffyniant Gyffredin rhanbarthol. Bydd y tanwariant terfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei ddefnyddio i leihau'r swm a hawlir o grant y fargen dwf a'r gronfa a glustnodir.
(2) Nodi llithriad pellach ar y rhaglen gyfalaf, gydag amcangyfrif o wariant o £7.13m yn 2023/24 o'i gymharu â chyllideb gymeradwy o £11.25m ar gyfer y flwyddyn.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

Cyflwynwyd atodiadau'r adroddiad i'r Bwrdd Portffolio ar 8 Medi, 2023.

**TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** 22 Medi, 2023

---

**PWNC**

Eitem 6: DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

---

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.

Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad y Bwrdd Uchelgais.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

---